

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymgynghoriad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar [Flaenoriaethau'r Chweched Senedd](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) consultation on [Sixth Senedd Priorities](#)

CYPE SP 43

Ymateb gan: Cymdeithas yr Iaith

Response from: Cymdeithas yr Iaith

Beth yn eich barn chi yw'r prif flaenoriaethau neu'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd? Os oes modd, nodwch eich barn o ran sut y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hyn.

What do you consider to be the main priorities or issues that the Committee should consider during the Sixth Senedd? Where possible, please set out your view about how the Committee could address them.

Thema 1: Addysg oedran ysgol | Theme 1: School-age education

Cytunwn ag [adroddiad arbenigol](#) a gomisiynwyd gan y Llywodraeth a ddywedodd fod angen deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn creu fframwaith fydd yn hwyluso camau breision ymlaen tuag at addysg Gymraeg i Bawb.

Rydyn ni felly'n galw am gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg i Bawb yn ystod y tymor seneddol hwn. Nodwn fod y Llywodraeth eisoes wedi datgan ei bwriad i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn ystod y tymor hwn. Byddem yn annog y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i sgriwteiddio'r Bil er mwyn sicrhau ei fod yn gwireddu'r nod o addysg Gymraeg *i bawb*. Yn benodol, hoffem weld y canlynol yn cael eu cynnwys yn y Ddeddf ac anogwn y Pwyllgor i sgriwteiddio'r Bil er mwyn sicrhau ei fod:

- yn sefydlu nod hirdymor yn y ddeddfwriaeth i gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg cyflawn i bawb a gwneud y Gymraeg yn gyfrwng iaith normadol ein holl system addysg
- yn gosod targed o 77.5% mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2040
- yn disodli'r gyfundrefn o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg gyda system sy'n gosod targedau statudol cenedlaethol a lleol clir, di-droi'n-ôl ar gyfer ehangu addysg Gymraeg er mwyn cyrraedd y nod hirdymor erbyn dyddiad(au) pendant; byddai cymhellion ariannol ynghlwm â'r targedau lleol



- yn gosod targedau o ran cynyddu nifer a chanran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion sy'n dysgu'n bennaf drwy'r Saesneg ar hyn o bryd
- yn gwneud trafndiaeth i'r ysgol ac addysg bellach am ddim i bawb

yn gwneud canolfannau trochi yn ddarpariaeth statudol ym mhob sir i ddysgu Cymraeg i bob plentyn sy'n symud i ardal ac i hwyluso trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg Gymraeg.

Thema 2: Addysg bellach ac addysg uwch | Theme 2: Further and higher education

Rydyn ni'n galw am ddosrannu £6 miliwn y flwyddyn i'r Coleg Cymraeg i weithredu'r cynllun ar gyfer ehangu addysg bellach cyfrwng Cymraeg, ac am glustnodi £20 miliwn ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn 2021/22 o'r gyllideb bresennol. Byddem yn annog y Pwyllgor i ymchwilio i hyn.

Thema 3: Iechyd a lles, gan gynnwys gofal cymdeithasol (i'r graddau y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc) | Theme 3: Health and well-being, including social care (as they relate to children and young people)

Mae gan bawb yr hawl i dderbyn gwasanaethau gofal iechyd a lles, gan gynnwys gofal cymdeithasol, ynghyd ag unrhyw wasnaethau cyhoeddus eraill, yn Gymraeg.

Yn anffodus, yn rhy aml o lawer, nid yw'r hawl sylfaenol hon yn cael ei gwireddu, sefyllfa sydd wedi mynd o ddrwg i waeth yn ystod yr argyfwng iechyd presennol. Mae angen i'r sefyllfa hon newid o ystyried statws y Gymraeg fel iaith swyddogol. Byddem yn annog y Pwyllgor i ysgrifennu adroddiad yn dadansoddi presenoldeb gwasanaethau cyfrwng Gymraeg presennol ar draws Cymru, yn enwedig yn oes Covid.

Thema 4: Plant a phobl Ifanc | Theme 4: Children and young people

Er mwyn sicrhau bod y genhedlaeth nesaf a chenedlaethau'r dyfodol yn gallu byw mewn cymunedau hyfyw a Chymraeg, mae angen gweithredu cyfuniad o bolisiau a strategaethau sy'n normaleiddio'r Gymraeg, cynyddu nifer y siaradwyr i du hwnt i filiwn, ehangu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd, a chynnig swyddi da Cymraeg ym mhob cornel o'n gwlad. Mae natur eang y nodau hyn yn golygu bod angen i strategaeth polisi iaith Gymraeg gwmpasu holl feysydd



polisi, o addysg, tai, economi, y byd digidol a thu hwnt

Golyga hyn fod angen:

- darparu addysg Gymraeg i bawb
- sefydlu [Menter Ddigidol Gymraeg](#) – corff cyhoeddus fyddai'n gwario £9m y flwyddyn yn comisiynu a chreu cynnwys Cymraeg ar-lein
- taclo'r argyfwng tai drwy basio Deddf Eiddo fyddai'n galluogi i bobl ifanc fyw yn eu broydd
- cyflwyno [Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb](#).

Hoffem weld y Pwyllgor yn trafod y cynigion hyn.

